

CRONFA ADDYSGOL
DR. DANIEL WILLIAMS
EDUCATIONAL FUND

(Sefydlwyd drwy Gynllun y Comisiwn Elusennau Mehefin 6ed 1979 ac a addaswyd
Ionawr 10fed 1989 a hefyd Tachwedd 3ydd, 2014 a Gorffennaf 3ydd 2017)

RHIF COFRESTRU 525756

CYFRIFON AC ADRODDIAD BLYNYDDOL
ANNUAL ACCOUNTS AND REPORT

Am y cyfnod Hydref 1af, 2023, hyd at Fedi 30ain, 2024

For the period October 1st, 2023 to September 30th, 2024

Dwryd Williams B.Add / B.Ed

Clerc yr Ymddiriedolwyr / Clerk to the Trustees

Ymddiriedolwyr Cyfredol / Current Trustees

* Mr Gerallt Wyn Hughes M.Sc, ARICS, MRTPI, D.L.	Ty'n y Coed, Arthog, Dolgellau, Gwynedd Apwyntiwyd: 2001	LL39 1YS C
Y Cynghorydd Mrs.A.T. Lloyd Jones	Hendy, Tywyn, Gwynedd Apwyntiwyd: 1990	LL36 9RU A
*Ms. Margaret Roberts	Garth Maelan, Dolgellau, Gwyneddd Apwyntiwyd: 2014	LL40 2LS C
*Mrs Shân Roberts	Hafod y Gwynt, Pencefn, Dolgellau Apwyntiwyd: Mis Hydref 2014	LL40 2YP C
Ms Elen Thomas	35 Uwch y Maes Dolgellau Apwyntiwyd: Mis Hydref 2014	LL40 1GA C
*Kirsty Wyn Edwards-Blockley Cynghorydd Dysgwyr/Student Advisor	Coleg Meirion Dwyfor, Ffordd Ty'n y Coed Dolgellau, Gwynedd Apwyntiwyd: Mis Mawrth, 2016	LL40 2SW C
*Mr Walter King	5 Nant Y Gader, Dolgellau, Gwynedd Apwyntiwyd: Mis Gorffennaf , 2017	LL40 1LB C
*Mr John Cadwaladr	Cefnydd, Ffordd Pencefn, Dolgellau, Gwynedd Apwyntiwyd: Mis Rhagfyr, 2021	LL40 2YP B
Miss Elizabeth Griffiths	Gwynfa, 12 Uwch y Maes, Dolgellau, Gwynedd Apwyntiwyd: Mis Rhagfyr, 2021	LL40 1GA C
Mrs Eleri Lewis-Smith	Lower School House, Ffordd yr Arran, Dolgellau, Gwynedd Apwyntiwyd: Mis Rhagfyr, 2021	LL40 1LA C

Yn cynrychioli

A – Cyngor Gwynedd

B – Cyngor Tref Dolgellau

C – Aelod Cyfetholedig

*Aelodau'r Pwyllgor Lleol

Clerc i'r Ymddiriedolwyr

Dwryrd Williams B.Add, Bryn Golau, Pencefn, Dolgellau, Gwynedd, LL40 2YP

Ffôn: 01341 423 4594

Felly, ar hyn o bryd, y mae wyth ymddiriedolwr cyfetholedig a dau enwebedig, sef Mr John Cadwaladr yn cynrychioli Cyngor Tref Dolgellau a'r Cynghorydd Mrs Anne Lloyd Jones yn cynrychioli Cyngor Gwynedd.

CANLLAWIAU

Yn ystod y flwyddyn parhaodd yr Ymddiriedolwyr i ystyried ceisiadau am gymorth ariannol yn unol â'r rheolau a adolygwyd parthed defnyddio'r incwm fel y'u cynhwysir yng Nghynllun y Comisiwn Elusennau fel y'u diwygiwyd, sef:

1. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn defnyddio incwm y Gronfa i hyrwyddo addysg plant a phobl ifanc yn yr ystod oedran Blwyddyn Ysgol 5* hyd at 25 oed (ond nid yn cynnwys ymgeiswyr 25 oed), mewn un neu ragor o'r ffyrdd canlynol:
 - (a) Trwy ddarparu cymorth ariannol, dillad, gwisgoedd, offer, cyfarpar neu lyfrau er galluogi'r cyfryw bersonau wrth iddynt adael Ysgol, Prifysgol neu sefydliad addysg arall i baratoi ar gyfer proffesiwn, crefft neu alwedigaeth;
 - (b) Trwy ddyfarnu ysgoloriaethau neu lwfansau cynhaliaeth er galluogi'r cyfryw bersonau i deithio un ai yn y wlad hon neu dramor, er hyrwyddo eu haddysg;
 - (c) Trwy ddarparu ysgoloriaethau neu lwfansau cynhaliaeth er galluogi'r cyfryw bersonau i astudio cerddoriaeth neu gelfyddydau eraill, a
 - (ch) mewn ffyrdd eraill i hyrwyddo addysg gan gynnwys hyfforddiant corfforol a chymdeithasol y cyfryw bersonau.
2. Gall yr Ymddiriedolwyr ddefnyddio incwm y Gronfa er hyrwyddo addysg personau nad ydynt wedi cyrraedd 25 mlwydd oed trwy ddyfarnu i'r cyfryw bersonau ysgoloriaethau i'w cynnal mewn unrhyw Ysgol Uwchradd, Coleg Addysg, Prifysgol neu unrhyw sefydliad addysg arall (yn cynnwys technegol a phroffesiynol) a gymeradwyir gan yr Ymddiriedolwyr.
3. O fewn y cyfyngiadau a ragnodir dan y Cynllun hwn, bydd pob hawl gan yr Ymddiriedolwyr i osod rheolau ar gyfer dyfarnu ysgoloriaethau, neu lwfansau cynhaliaeth neu fuddiannau eraill, yn cynnwys rheolau parthed gwerth a chyfnod y dyfarniad ynghyd â'r cymwysterau a'r dulliau o ddewis a dethol buddiolwyr.
4. Wrth ddefnyddio incwm dan y Cymal hwn bydd yr Ymddiriedolwyr yn rhoi blaenoriaeth i:
 - (a) Cyn-ddisgyblion o Ysgol Dr Williams neu i ddisgynyddion hyd at blant i blant y cyn-ddisgyblion hynny;
 - (b) Personau sydd yn preswyllo, neu sydd â rhiant neu rieni yn preswyllo yng nghyn-ddosbarth Meirionnydd yn y drefn yna o flaenoriaeth.

O gadw at y rheolau blaenoriaeth a osodwyd i lawr yn 1979 mae'r ymddiriedolwyr wedi sefydlu canllawiau parthed cymwysterau i dderbyn cymorth ariannol gan dderbyn hefyd y bydd yn rhaid adolygu yn rheolaidd unrhyw ganllawiau o'r fath.

**** Y mae disgyblion ysgol yn cael mynediad i Flwyddyn 5 ar ddechrau'r mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn naw oed***

SYLWADAU'R CLERC

Os yw nifer yr ymgeiswyr yn feincnod ar gyfer mesur llwyddiant y Gronfa, roedd 2023-2024 yn flwyddyn lwyddiannus iawn oherwydd rhoddwyd cymorth i 594 ymgeisydd o'i gymharu â 412 y flwyddyn flaenorol. Wedi dweud hynny, roedd 431 o'r ceisiadau yn rhan o geisiadau torfol gan ysgolion/colegau ar gyfer teithiau addysgol neu ymweliadau â chanolfannau awyr agored. Rhoddwyd sylw manwl i'r sefyllfa gyllidol gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau nad oedd yr arian a ddosbarthwyd yn mynd tu hwnt i'r swm a oedd gan y Gronfa yn y banc. Yn ddelfrydol, y nod fyddai dosbarthu'r holl logau a ddaw i'r coffrau, ond mewn realiti nid yw hynny'n bosib. Ni all yr Ymddiriedolwyr (gyda chymorth y clerc), ganiatáu i'r Gronfa fynd i'r coch. Tasg anodd yw sicrhau hynny oherwydd ni ellir rhagweld yn union faint o geisiadau ddaw i law o fis i fis. Yr unig ganllaw sydd gennym yw patrwm y ceisiadau yn y blynyddoedd blaenorol - gall hynny fod o gymorth, ond gall un cais sylweddol o du ysgol uwchradd neu am gymorth tuag at offeryn cerdd ddrudfawr, chwalu'r rhagolygon. Oherwydd bod y sefyllfa ariannol yn ymddangos yn dynn iawn ym mis Rhagfyr, yn hytrach na gostwng y graddfeydd, penderfynwyd peidio â chyfarfod ym mis Ionawr er mwyn rhoi cyfle i'r arian gronni. Penderfynwyd cadw at y graddfeydd a oedd mewn grym ar gyfer dosbarthiad mis Rhagfyr. Cadarnhawyd hefyd hawl y Pwyllgor Lleol i addasu'r graddfeydd pe bai gwir angen gwneud hynny. Hefyd, rhoddwyd yr hawl i'r Pwyllgor Lleol fynd tu hwnt i'r canllawiau dan amgylchiadau arbennig e.e. ADY dwys neu dlodi neilltuol. Y mis Rhagfyr hefyd trafodwyd ceisiadau gan ymgeiswyr sydd yn gweithio'n llawn amser. Wedi trafodaeth cytunwyd y gellir cefnogi ceisiadau gan bobl ifanc sydd yn gweithio'n llawn amser ond sydd yn ymdrechu i wella eu cymwysterau trwy astudio yn eu hamser sbâr.

Yng nghyfarfod mis Chwefror adroddodd y clerc bod angen cymryd camau i leihau'r gwariant neu byddai'r Gronfa mewn sefyllfa o ddiffyg sylweddol o fis i fis, gan orfod disgwyl i'r incwm chwarterol gyrraedd cyn gallu dosbarthu unrhyw gymorth. Rhoddwyd ystyriaeth ddwys i wahanol ffyrdd o leihau'r gwariant. Penderfynwyd torri 25% o bob cymhorthdal ar draws y bwrdd. Rhagwelwyd y byddai hynny'n arbed tua £3,479 ar ddosbarthiad mis Chwefror. Er tegwch i ddarpar ymgeiswyr penderfynwyd y byddai'r graddfeydd uchod yn para am o leiaf blwyddyn (oni phenderfynir yn wahanol).

Daliodd y llogau a dderbyniwyd gan CCLA a BlackRock eu tir yn rhyfeddol o dda eto eleni. Roedd yr incwm, sef y llogau ar y buddsoddiadau, ar gyfer 2023-2024, yn £65,478 (o'i gymharu â £63,612 y flwyddyn ariannol flaenorol). Yn ystod y flwyddyn ariannol 2023-2024 dosbarthwyd £58,766 ar ffurf grantiau (o'i gymharu â £71,088 yn 2022-2023).

Gwariwyd cyfanswm o £5,546 ar weinyddu'r Gronfa (o'i gymharu â £6,449 y flwyddyn ariannol flaenorol). Roedd gwarged (surplus) o £440 yn y flwyddyn 2023/24 (o'i gymharu â gwarged o £14,615 y flwyddyn flaenorol). Mae'r gwarged yn gallu amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar faint o arian a ddosbarthwyd yn y cyfnod Gorffennaf i Fedi a faint o sieciau sydd heb eu bancio ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Y mae cost hanfodion megis amlenni, stampiau, papur ac inc ar gyfer yr argraffydd ayyb i gyd wedi parhau i godi'n ystod yn y flwyddyn ddiwethaf, gan ychwanegu at y gost o weinyddu'r Gronfa. Rydym yn ffodus fod Gwasg Nereus (Mr Dylan Nereus Jones) yn y Bala wedi cadw pris y ffurflenni cais yn rhesymol o isel yn ystod y cyfnod dan sylw. Wedi dweud hynny, fe dorrodd ei argraffydd yn ystod y flwyddyn gan olygu y bu'n rhaid iddo fynd â'r gwaith i Wasg y Lolfa yn y tymor byr. Fe gostiodd hyn yn ddrud i'r Gronfa oherwydd roedd y Lolfa yn sylweddol ddrytach na Nereus. Erbyn hyn mae Dylan Nereus wedi llwyddo i adfer ei argraffydd ac felly, gyda lwc, ni chyfyd y sefyllfa eto.

Gellir rhannu'r rhai a dderbyniodd gymorth gan y Gronfa i gategoriâu (gweler y graff ar y dudalen nesaf), ynghyd â'r niferoedd ym mhob categori.

.

THE CLERK'S COMMENTS

If the number of applicants is a benchmark for measuring the success of the Fund, 2023-2024 was a very successful year because assistance was given to 594 applicants, compared to 412 the previous year. That said, 431 of the applications were part of group applications from schools/colleges for assistance towards educational trips or visits to outdoor education centres. Detailed attention was paid to the financial situation throughout the year to ensure that the money distributed did not exceed the amount the Fund had in the bank.

Ideally, the aim would be to distribute all of the interest that reaches the coffers, but in reality that is not possible. The Trustees (with the help of the clerk), cannot allow the Fund to go into the red. It is difficult to achieve that because it is not possible to predict exactly how many applications will be received from month to month. The only guide we have is the pattern of applications in previous years - that can be helpful, but one significant application from a secondary school or for help towards an expensive musical instrument, can shatter the forecasts. Because the financial situation seemed very tight in December, rather than lowering the rates, it was decided not to meet in January in order to give the money a chance to accumulate. It was decided to keep to the rates that were in force for the December distribution. The Local Committee's right to adjust the rates was also confirmed, if it was adjudged that there was a genuine need to do so. Also, the Local Committee was given the right to go beyond the guidelines under special circumstances e.g. SEN or extreme poverty. In December we also discussed applications from candidates who work full time. After a discussion it was agreed that applications from young people who work full-time but are striving to improve their qualifications by studying in their spare time, can be supported.

At the February meeting, the clerk reported that steps needed to be taken to reduce the expenditure or the Fund would find itself in a position of significant deficit from month to month, having to wait for the quarterly income to arrive before being able to distribute any assistance. Serious consideration was given to different ways of reducing the expenditure. It was decided to cut 25% of all grants across the board. It was predicted that this would save around £3,479 on the February distribution. In fairness to potential applicants it was decided that the above rates would remain in force for at least one year (unless decided otherwise).

The interest payments received from CCLA and BlackRock held their ground surprisingly well again this year. The income, which is the interest on the investments, for 2023-2024, was £65,478 (compared to £63,612 the previous financial year). During the financial year 2023-2024, £58,766 was distributed in the form of grants (compared to £71,088 in 2022-2023).

A total of £5,546 was spent on the administration of the Fund (compared to £6,449 the previous financial year). There was a surplus of £440 in the year 2023/24 (compared to a surplus of £14,615 the previous year). The surplus can vary significantly from year to year depending on how much money is distributed in the July to September period and how many cheques are unbanked at the end of the financial year.

The cost of essentials such as envelopes, stamps, paper and ink for the printer etc. have all continued to rise during the past year, adding to the cost of administering the Fund. We are fortunate that Gwasg Nereus (under Mr Dylan Nereus Jones) in Bala has kept the price of the application forms reasonably low during the period in question.

Having said that, Mr Jones' printer broke down during the year resulting in him having to take the work to Gwasg y Lolfa in the short term. This cost the Fund dearly because the Lolfa was significantly more expensive than Nereus. Nereus has managed to restore his printer and so, hopefully, the situation will not arise again,

Those who received help from the Fund can be divided into categories (see the graph on the next page), together with the numbers in each category.

DANSODDIAD O'R CYMORTH A RODDWDYD O RAN CATEGORIAU

AN ANALYSIS OF THE SUPPORT PROVIDED IN TERMS OF CATEGORIES

Nifer yr ymgeiswyr llwyddiannus ym mhob categori


Offerynnau cerdd	1
Hyfforddiant dawns/perfformio	2
Offer technolegol	4
Costau teithio	8
Chwaraeon	28
Cerddoriaeth	31
Ffioedd prifysgol	89
Teithiau addysgol	198
Cyrsiau awyr-agored	233
Cyfanswm	594

The number of successful applicants in each category


Musical instruments	1
Dance/performing tuition	2
I.T. equipment	4
Travelling costs	8
Sports	28
Music	31
University fees	89
Educational trips	198
Outdoor activity courses	233
Total	594

DADANSODDIAD O'R CYMORTH A RODDWYD O RAN CATEGORIAU

AN ANALYSIS OF THE SUPPORT PROVIDED IN TERMS OF CATEGORIES



DADANSODDIAD O'R GWARIANT / AN ANALYSIS OF THE EXPENDITURE



Cyfansymiau a ddosbarthwyd ar ffurf grantiau ers sefydlu'r Gronfa
Totals distributed as grants since the Fund was established

1979/80	£286
1980/81	£1,164
1981/82	£7,763
1982/83	£3,411
1983/84	£9,380
1984/85	£11,788
1985/86	£06,801
1986/87	£13,082
1987/88	£20,988
1988/89	£17,715
1989/90	£15,262
1990/91	£33,257
1991/92	£40,345
1992/93	£32,431
1993/94	£16,936
1994/95	£18,699
1995/96	£35,832
1996/97	£41,736
1997/98	£26,258
1998/99	£34,476
1999/00	£32,500
2000/01	£31,710
2001/02	£37,916
2002/03	£27,800
2003/04	£20,200
2004/05	£27,800
2005/06	£40,000
2006/07	£32,000
2007/08	£39,000
2008/09	£31,454
2009/10	£41,841
2010/11	£33,081
2011/12	£61,457
2012/13	£38,594
2013/14	£58,992
2014/15	£40,573
2015/16	£44,713
2016/17	£42,189
2017/18	£47,629
2018/19	£51,950
2019/20	£45,850
2020/21	£40,613
2021/22	£55,015
2022/23	£71,088
2023/24	£58,766

**Independent Examiner's Report to the
Trustees of Dr. Daniel Williams' Educational Fund**

Charity no. 525756

I report to the trustees on my examination of the accounts of the Dr. Daniel Williams' Educational Fund (the Fund) for the year ended 30th September 2024.

Responsibilities and basis of report

As the charity trustees of the Fund you are responsible for the preparation of the accounts in accordance with the requirements of the Charities Act 2011 ('the Act').

I report in respect of my examination of the Fund's accounts carried out under section 145 of the 2011 Act and in carrying out my examination I have followed all the applicable Directions given by the Charity Commission under section 145(5)(b) of the Act.

Independent examiner's statement

My examination was carried out in accordance with general Directions given by the Charity Commissioners. An examination includes a review of the accounting records kept by the charity and a comparison of the accounts presented with those records. It also includes consideration of any unusual items or disclosures in the accounts, and seeking explanations from you as trustees concerning any such matters. The procedures undertaken do not provide all the evidence that would be required in an audit and consequently no opinion is given as to whether the accounts present a true and fair view and the report is limited to these matters set out in the statement below.

Independent examiner's statement

I have completed my examination. I confirm that no material matters have come to my attention in connection with the examination giving me cause to believe that in any material respect:

1. accounting records were not kept in respect of the Trust as required by section 130 of the Act; or
2. the accounts do not accord with those records.

I have no concerns and have come across no other matters in connection with the examination to which attention should be drawn in this report in order to enable a proper understanding of the accounts to be reached.



.....
Mr. P. Horwood
Griffith, Williams & Co.,
Chartered Accountants,
36 Stryd Fawr,
Pwllheli,
Gwynedd
LL53 5RT
Date: 29th November 2024

DR. DANIEL WILLIAMS' EDUCATIONAL FUND

Charity no. 525756

RECEIPTS AND PAYMENTS ACCOUNT FOR THE YEAR ENDED 30TH SEPTEMBER 2024

	2024		2023	
	£	£	£	£
Accumulated Income Fund				
Income from investment				
Charities Official Investment Funds – income units – dividend	52,781		51,938	
Charishare Common Investment Fund – dividend	10,610		10,128	
Charinco Common Investment Fund – interest	309		309	
Charinco – BRIM interest	18		18	
	-----		-----	
		63,718		62,393
Interest on bank deposits				
Charities deposit account	1,760		1,219	
	-----		-----	
		1,760		1,219
		-----		-----
		65,478		63,612
Expenditure				
Office administration and clerk's salary	5,546		6,449	
Accountancy	726		690	
	-----		-----	
		(6,272)		(7,139)
		-----		-----
Excess of income over administration expenses for the year		59,206		56,473
Less grants awarded		(58,766)		(71,088)
		-----		-----
Surplus / (deficit) of income over grants awarded and paid transferred to accumulated income fund		£ 440		£ (14,615)
		=====		=====

**DR. DANIEL WILLIAMS' EDUCATIONAL FUND
BALANCE SHEET AS AT 30TH SEPTEMBER 2024**

Charity no. 525756

	2024	2023
	£	£
Capital fund		
Balance as at 30 th September	1,202,866	1,202,866
Accumulated income fund		
Balance as at 1 st October	18,781	33,396
Surplus / (deficit) of income over grants awarded and paid during the year	440	(14,615)
	-----	-----
Balance as at 30 th September	19,221	18,781
	-----	-----
	1,222,087	1,221,647
	=====	=====

Represented in assets and liabilities as follows:

Capital fund		
Investments per schedule	1,166,683	1,166,683
Charities deposit account #1	13,300	13,300
Charities deposit account #2	21,185	21,185
HSBC Money manager	15	15
HSBC Treasurer account	1,683	1,683
	-----	-----
	1,202,866	1,202,866
Accumulated income fund		
Cash at HSBC Bank:		
Treasurer account	19,221	18,781
	-----	-----
	19,221	18,781
	-----	-----
	£1,222,087	£1,221,647
	=====	=====

Reserves Policy: The Trustees are of the opinion that the charity does not require a formal reserves policy due to the fact that they receive a detailed monthly report on the financial situation and that they adjust the rates of support distributions in light of those reports. As a result, this ensures that the accumulated income part of the Fund never becomes fully depleted.

The financial statements were approved by the Board of Trustees and authorised for issue on

09/12/24 and were signed on its behalf by:

G.W.Hughes – Trustee

DR. DANIEL WILLIAMS' EDUCATIONAL FUND
YEAR ENDED 30TH SEPTEMBER 2024

Charity no. 525756

Schedule of investment and movements

Capital fund

	Cost as at 01.10.2023 £	Changes during the year £	Cost as at 30.09.2024 £	Market value 30.09.2024 £	Market value 30.09.2023 £
Charities Official Investment Fund					
603224.74 Income units – Ethical Fund	1,089,062	-	1,089,062	1,865,714	1,684,686
Charishare Common Investment Fund					
13760.276 Units – a/c no.00005846-0001 [05]	22,608	-	22,608	105,310	98,539
299.085 Units – a/c no. 00005846-0003 [B S Jones Prize Fund]	425	-	425	2,289	2,142
27794.021 Units – a/c no. 00005846-0002 [Accumulation of Income]	46,388	-	46,388	212,714	199,035
Charinco Common Investment Fund					
5142.617 Units – a/c no. 00005846-0001 [05]	7,662	-	7,662	7,500	7,199
296.020 Units – a/c no. 00045710-0002	538	-	538	432	414
	----- £1,166,683 =====	----- £ - ===	----- £1,166,683 =====	----- £ 2,193,959 =====	----- £1,992,015 =====